# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Rhagfyr 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

## Cofrestru

(09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.30)

2.1 **PTN 1 - Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol (IMSC) - 2 Rhagfyr 2024**

(Tudalen 1)

2.2 **PTN 2 - Llythyr gan Brif Weinidog Cymru at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: 42ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig - 6 Rhagfyr 2024**

(Tudalen 2)

2.3 **PTN 3 - Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Gyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 - 2 Rhagfyr 2024**

(Tudalennau 3 - 15)

## 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26: Sesiwn tystiolaeth 1

(09.30-11.00) (Tudalennau 16 - 32)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys, Llywodraeth Cymru

Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau ategol:**

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Briff Ymchwil y Senedd

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

(11.00)

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26: Trafod y dystiolaeth

(11.00-11.15)

## 6 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019: Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol

(11.15-11.30) (Tudalennau 33 - 43)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-27-24 P1 - Papur cwmpas a dull

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf - DC/HIDCC/10589/24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

2 Rhagfyr 2024

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am chweched cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, sydd i'w gynnal ar 3 Rhagfyr 2024.

Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn cael ei gadeirio gan Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn Llywodraeth y DU, y Gwir Anrhydeddus Pat McFadden AS. Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod. Hwn fydd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ers yr etholiad cyffredinol fis Gorffennaf a bydd yn cael ei gynnal yn rhithwir. Rwy'n rhag-weld y bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19, Fframweithiau Cyffredin, Deddf Marchnad Fewnol y DU a Chonfensiwn Sewel.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Eluned Morgan AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS, yn ogystal ag at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

6 Rhagfyr 2024

Annwyl Mike,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: 42ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi am 42ain cyfarfod Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a fydd yn cael ei gynnal gan Lywodraeth yr Alban yr wythnos hon.

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS a minnau yn bresennol yn yr uwchgynhadledd. Yn ogystal â'r cyfle arferol i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ar faterion, thema'r uwchgynhadledd yw 'Cyllido Pontio Teg'.

Bydd y Cyngor yn cytuno ar ddatganiad yn yr uwchgynhadledd a fydd yn manylu ar y trafodaethau a gynhaliwyd, a byddaf yn ysgrifennu atoch er mwyn ei rannu â chi. Byddaf hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd mewn datganiad ysgrifenedig maes o law.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,

M. E. Morgan

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.ElunedMorgan @llyw.cymru
Correspondence.ElunedMorgan @gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/MDFWL/10888/24

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

2 Rhagfyr 2024

Annwyl Peredur,

Diolch am waith craffu'ch Pwyllgor ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 a'r adroddiad dilynol.

Atodaf ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion. Gobeithiaf y bydd yr ymateb yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid "Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2024-25"

Rhagfyr 2024

Ar 1 Hydref 2024, cafodd Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 a'r dogfennau cysylltiedig eu gosod gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg (yr Ysgrifennydd Cabinet).

Clywodd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet yn ei gyfarfod ar 10 Hydref 2024 a chyhoeddodd ei adroddiad ar 21 Hydref. Roedd adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn cynnwys naw argymhelliad a thri chasgliad.

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r naw argymhelliad hynny yw'r ddogfen hon.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... 3
**Argymhelliad 1** .......... 4
**Argymhelliad 2** .......... 5
**Argymhelliad 3** .......... 6
**Argymhelliad 4** .......... 7
**Argymhelliad 5** .......... 8
**Argymhelliad 6** .......... 9
**Argymhelliad 7** .......... 10
**Argymhelliad 8** .......... 11
**Argymhelliad 9** .......... 12

## Cyflwyniad

Cafodd y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2024-25 ei chyflwyno gan Lywodraeth Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.  Roedd yn cynnig newidiadau i'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2024-25 fel y'i cymeradwywyd gan Senedd Cymru ('y Senedd') ar 5 Mawrth 2024.

Cyhoeddwyd ailddatganiad o Gyllideb Derfynol 2024-25 ym mis Mehefin 2024. Gwnaeth ailddatganiad pellach o'r Gyllideb Derfynol osod y llinell sylfaen ar gyfer y gyllideb atodol hon sy'n ailosod prif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru i adlewyrchu portffolios diweddaraf y Cabinet a gyhoeddwyd ym mis Medi.

Mae'n rheoleiddio dyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt, a throsglwyddiadau o fewn a rhwng y portffolios. Mae hefyd yn cynnwys addasiadau i gyllideb Cymru i adlewyrchu effaith digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cyllid am eu hadroddiad ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2024-25. Rwyf wedi nodi fy ymateb i naw argymhelliad yr Adroddiad isod.

## Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cadarnhau na fydd newidiadau IFRS16 yn effeithio ar gapasiti gwariant Llywodraeth Cymru, ac yn egluro a fydd graddfa newidiadau IFRS16 yn y gyllideb atodol yn cael ei hailadrodd mewn cyllidebau dilynol.

**Ymateb:** Derbyn

Bydd y newidiadau i gyllideb atodol gyntaf Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â gweithredu safon gyfrifyddu IFRS16 ar gyfer lesoedd yn adlewyrchu'r amcangyfrifon o effaith a ddarparwyd i Drysorlys EF yn 2022. Cafodd £12.4m pellach ei ddarparu yng Nghyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â symudiadau wedi hynny yn yr amcangyfrifon gwreiddiol. Bydd hwn yn cael ei ddyrannu yn ail gyllideb atodol Llywodraeth Cymru.

Cafodd IFRS16 ei gweithredu ar gyfer y sector cyhoeddus o 1 Ebrill 2022. Cafodd goblygiadau ailddosbarthu'r gyllideb yn sgil mabwysiadu IFRS16 eu bodloni gan Drysorlys EF ar gyfer cyfnod yr Adolygiad o Wariant presennol o 2022-23 i 2024-25 fel ymarfer cyllidebol neilltuedig.

Ar gyfer 2025-26, mae effeithiau mabwysiadu IFRS16 wedi'u cynnwys yn setliad cyllideb Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU ac nid yw bellach wedi'i glustnodi a bydd hyn yn parhau ar gyfer setliadau cyllideb yn y dyfodol.

Felly, o hyn ymlaen, ni fydd dyraniadau penodol ar gyfer IFRS16 mewn cyllidebau atodol yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol** – dim.

## Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet:

▪ yn rhoi rhagor o eglurder ar ei benderfyniadau ynghylch cyllid ar gyfer dyfarniad cyflog y GIG cyn y cafwyd cadarnhad gan Lywodraeth y DU y byddai hyn yn gyllid rheolaidd;

▪ yn esbonio sut y mae hyn yn cyd-fynd â rheolau cyllidol Llywodraeth Cymru ei hun ynghylch fforddiadwyedd,

▪ yn rhoi manylion am asesiadau effaith a wnaed o sut y byddai'r penderfyniad hwn yn effeithio ar feysydd eraill o gyllideb Llywodraeth Cymru, ac

▪ yn amlinellu'r risgiau a nodwyd wrth fabwysiadu dull o'r fath.

**Ymateb:** Derbyn

Pan roeddem yn gosod ein cyllideb derfynol ym mis Mawrth eleni, nid oedd Llywodraeth flaenorol y DU wedi rhoi sicrwydd bod y cyllid ychwanegol ar gyfer cyflog y cytunwyd arno ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf ac a ddarparwyd i Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) Llywodraeth y DU yn gyllid rheolaidd. Gwnaethom benderfyniad a oedd yn seiliedig ar risg ei bod yn amhosibl i Lywodraeth flaenorol y DU ariannu dyfarniadau cyflog yn ystod un flwyddyn a dewis peidio â'u hariannu y flwyddyn nesaf. O ganlyniad, roeddem o'r farn ei bod yn debygol iawn y byddai cyllid ychwanegol ar gael i DHSC ac y byddai symiau canlyniadol yn cael eu darparu i Gymru.

At ei gilydd, roedd hon yn rhagdybiaeth gynllunio briodol. Pe na bai costau rheolaidd yn cael eu darparu – ac roedd hynny yn annhebygol o ddigwydd – byddent yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses sefydledig yn Llywodraeth Cymru i reoli pwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyllid ychwanegol ar gyfer DHSC yn ei Chyllideb y Gwanwyn. Mae'r swm canlyniadol sy'n deillio o'r cyllid ychwanegol hwnnw yn cael ei reoleiddio a'i adlewyrchu yn y gyllideb atodol gyntaf hon.

**Goblygiadau Ariannol** – dim.

## Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn uwchgyfeirio trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trysorlys ar ddiweddaru'r fframwaith cyllidol, ac yn rhoi manylion ynghylch pryd y bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gweithredu a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar allu Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb.

**Ymateb:** Derbyn

Roedd Maniffesto Llafur y DU yn cydnabod nad yw Fframwaith Cyllidol Cymru yn gyfredol mwyach. Mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau ers amser y dylid dyrannu adnoddau ar draws y DU ar sail angen cymharol, fel y nodir yn Diwygio ein Hundeb. Fodd bynnag, blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yn y tymor agos yw sicrhau bod y trefniadau ariannu presennol yn cyflawni dros Gymru. Drwy gynnig hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol a dileu cyfyngiadau cyllidol, byddai'n bosibl rhagweld cyllid Llywodraeth Cymru yn well, a byddai hyn hefyd yn cefnogi trefniadau rheoli cyllideb effeithiol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn ogystal â'i sefydliadau partner, gan gynnwys yr awdurdodau lleol.

Mae Prif Weinidog Cymru a minnau wedi cael cyfres o drafodaethau cydweithredol â Gweinidogion Llywodraeth y DU. Yn ystod y trafodaethau hynny, gwnaethom bwyso am gytundeb Llywodraeth y DU i ddiweddaru'r terfyn benthyca a'r terfyn o ran cronfa wrth gefn Llywodraeth Cymru o brisiau 2018-19 i brisiau 2024-25, yn unol â datchwyddyddion cynnyrch domestig gros (GDP) diweddaraf y Gyllideb, ac i fynegeio'r rhain yn unol â chwyddiant wedi hynny, gan ddiddymu'r terfyn blynyddol ar dynnu i lawr o'r gronfa wrth gefn. Byddaf yn codi'r materion hyn ymhellach mewn cyfarfodydd dwyochrog â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yn y dyfodol.

Codais y mater ehangach o ddyraniadau hwyr gan Lywodraeth y DU a hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn y gyllideb, ynghyd â Gweinidogion Cyllid yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid yn Belfast ar 3 Hydref. Bydd hyn yn ffurfio rhan o raglen waith ehangach a bydd yn cael ei hystyried fel eitem o sylwedd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Cyllid am y cynnydd diweddaraf.

**Goblygiadau Ariannol** – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn yr adnoddau presennol.

## Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddull Llywodraeth Cymru o reoli ei chyllidebau cyfalaf cyn gynted â phosibl ar ôl i adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ddod i ben, gan gynnwys syniad ynghylch a fydd y dull presennol o or-ddyrannu cyllidebau cyfalaf yn parhau, a'r effaith y bydd unrhyw newidiadau yn ei chael ar feysydd eraill yng nghyllideb Llywodraeth Cymru.

**Ymateb:** Derbyn

Mae hysbysiad hwyr gan Lywodraeth flaenorol y DU o newidiadau i'n cyllideb gyfalaf wedi ei gwneud hi'n anodd i reoli ein cyfalaf yn effeithlon ac yn effeithiol o fewn cyfyngiadau blynyddol y flwyddyn ariannol. Un o'r rhesymau dros gyflwyno gorraglennu cyfalaf oedd sicrhau ein bod yn defnyddio'r cyfalaf sydd ar gael yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Mae'r polisi hwn wedi ein galluogi i fwrw ymlaen â gwariant hyd at lefelau'r rhagolygon a ddisgwyliwyd heb orfod gwneud unrhyw benderfyniadau bwriadol i oedi neu ailraglennu ein buddsoddiad cyfalaf.

Rydym yn adolygu'r polisi gorraglennu ar gyfer yr Adolygiad o Wariant a'r gyllideb nesaf oherwydd ein bod yn cydnabod bod lefelau cyfalaf ychwanegol wedi lleihau'n sylweddol yn ystod cyfnod yr adolygiad o wariant diwethaf. Bydd y gwaith hwn yn cael ei lywio gan ein setliad cyfalaf yng Nghyllideb yr Hydref.

Byddaf yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor yn dilyn yr adolygiad.

**Goblygiadau Ariannol** – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cymryd camau i sicrhau bod naratif a'r prif ffigurau yn cyd-fynd â chyllidebau atodol yn y dyfodol sy'n esbonio'n glir y newidiadau yng nghyllideb Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru.

**Ymateb:** Derbyn

Rydym yn parhau i adolygu dogfennaeth ein cyllideb a'r bwriad yw sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran lefel y manylion a ddarperir i gefnogi'r newidiadau o fewn cyllidebau atodol.

Yn gyffredinol, mae newidiadau mewn cyllidebau atodol yn cynnwys dyraniadau sy'n ymwneud â rheoleiddio cyhoeddiadau cyllidebol sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru ac, felly, bydd gwybodaeth am y penderfyniadau cyllidebol hyn ar gael i'r cyhoedd.

Pan fydd newidiadau technegol sylweddol, megis effaith IFRS16, bydd y rhain wedi'u nodi yn y Nodyn Esboniadol sy'n rhan o ddogfennaeth y gyllideb a gyhoeddir ochr yn ochr â thablau'r gyllideb atodol.

**Goblygiadau Ariannol** – dim.

## Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell, pan fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud addasiadau sylweddol nad ydynt yn rhai arian parod i fenthyciadau i fyfyrwyr yn y dyfodol, ei bod yn darparu rhagor o fanylion i esbonio sut y mae'r prisiadau wedi newid a disgrifiad ehangach yn nogfennaeth y gyllideb atodol er mwyn osgoi camddealltwriaeth ymhlith aelodau o'r cyhoedd, a allai ddehongli bod y newidiadau'n effeithio ar y cyllid refeniw adrannol sydd ar gael.

**Ymateb:** Derbyn

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd tryloywder ac eglurder yr wybodaeth y byddwn yn ei darparu i gefnogi cyllidebau atodol gan ystyried hefyd y ffaith bod cyllidebau atodol, yn ôl eu natur, yn ymarferion technegol ac y dylai unrhyw wybodaeth gysylltiedig fod yn gymesur o ran ei natur a'i maint.

Pan fydd yn ddefnyddiol ac yn ymarferol gwneud hynny, byddwn yn ceisio cynnwys rhagor o wybodaeth am gefndir unrhyw addasiadau sylweddol pellach heb fod yn arian parod sy'n gysylltiedig â benthyciadau i fyfyrwyr. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r Nodyn Esboniadol i nodi gwybodaeth am unrhyw ddyraniadau allweddol a newidiadau sylweddol i gyllidebau atodol.

**Goblygiadau Ariannol** – dim.

## Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn darparu manylion am gynlluniau Llywodraeth Cymru i asesu'r sefyllfa o ran cyllid ychwanegol ar gyfer cyrff y GIG i ymdrin â phwysau'r gaeaf eleni a'r effaith bosibl y caiff hyn ar feysydd eraill yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill 2024-25..

**Ymateb:** Derbyn

Mae cynllunio ar gyfer y gaeaf yn rhan safonol o gynllunio ariannol yn y GIG. Pan ddarperir cyllidebau ar gyfer y prif grwpiau gwariant ar ddechrau'r flwyddyn, mae disgwyl i'r pwysau a wynebir yn ystod y gaeaf gael ei reoli o fewn y setliad hwnnw.

Mae cynllunio ariannol ar gyfer pwysau'r gaeaf a brofir fel arfer gan GIG Cymru yn rhan o'r broses gynllunio arferol drwy gyflwyno Cynlluniau Tymor Canolig Integredig neu Gynlluniau Blynyddol ar ddechrau'r flwyddyn. Mae cyrff y GIG, awdurdodau lleol a'u partneriaid yn gweithio drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, grwpiau cynllunio ar draws clystyrau a chlystyrau i nodi camau gweithredu ar y cyd ar gyfer tymor y gaeaf 2024-25.

Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddatganiad ym mis Medi yn rhoi'r diweddaraf i'r Senedd ynghylch sut y mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn paratoi ar gyfer y gaeaf.

**Goblygiadau Ariannol** – dim.

## Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau a gynhaliwyd â Llywodraeth y DU ynghylch y trefniadau cyllid sy'n ymwneud â Llinellau Craidd y Cymoedd.

**Ymateb:** Derbyn

Bu ymgysylltu manwl â Llywodraeth y DU, gan gynnwys y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, yn gynharach eleni i ddod i gytundeb ar gyllid Gweithrediadau, Cynnal a Chadw ac Adnewyddu ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd.

Arweiniodd hyn at gynnydd o £39m yn y grant bloc ar gyfer Llywodraeth Cymru ar ffurf £18.7m o adnodd ychwanegol a £20.3m o gyfalaf ychwanegol yn 2024-25. Cafodd y symiau ychwanegol hyn eu dyrannu ym Mhrif Amcangyfrifon y DU.

Yng Nghyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU ar 30 Hydref, cadarnhawyd bod llinell sylfaen wedi'i phennu ar gyfer y cyllid hwn yn ein setliad ar gyfer 2025-26 a'r blynyddoedd wedi hynny.

Mae trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch cyllid ar gyfer gwelliannau i Linellau Craidd y Cymoedd yn parhau a byddant yn rhan o ail gam Adolygiad o Wariant y DU a fydd yn dod i ben ddiwedd y gwanwyn.

**Goblygiadau Ariannol** – dim.

## Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu rhagor o wybodaeth am effaith y trosglwyddiadau o'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymorth i Fysiau, Blaenoriaethau Trafnidiaeth Leol a Theithio Cynaliadwy a Llesol i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Trafnidiaeth Cymru ac a yw'r rhain yn effeithio ar gyflawni'r meysydd polisi cysylltiedig.

**Ymateb:** Derbyn

Er mwyn lliniaru pwysau costau parhaus ar Linellau Craidd y Cymoedd, roedd angen ailddyrannu tua £40m o gyllid ar draws y cyllidebau trafnidiaeth ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Daeth y rhan fwyaf o'r cyllid hwn (£26m) o'r gyllideb cyfalaf bysiau sy'n cynnwys prynu bysiau newydd di-allyriadau i gefnogi datgarboneiddio'r rhwydwaith trafnidiaeth. Y prif ganlyniad o wneud hynny yw y bydd y rhaglen hon yn dechrau'n hwyrach na'r bwriad a bydd angen iddi gyflymu'n fwy sydyn yn y blynyddoedd fydd yn dod wedyn. Nid ydym yn rhagweld unrhyw ganlyniadau ar gyfer y rhaglen masnachfreinio bysiau.

O ran y cyllid ar gyfer teithio llesol, roedd y newid o £3m yn cynrychioli llai na 5% o gyfanswm y dyraniad ac ni fydd y lleihad hwn yn cael effaith sylweddol ar y rhaglen hon.

Ar gyfer Blaenoriaethau Trafnidiaeth Leol, roedd y lleihad mewn cyllid (£5m) yn is nag yr oeddem wedi'i gynllunio yn y lle cyntaf yn dilyn cyhoeddi'r cynllun ar gyfer newidiadau i weithredu'r polisi 20mya. Mae hyn wedi creu costau ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol a chafodd £5m ychwanegol ei ddyrannu i gefnogi'r newidiadau. Er gwaetha'r dyraniad ychwanegol hwn, rydym yn cydnabod bod gan y dulliau hyn ganlyniadau, yn enwedig gan fod Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrthi'n paratoi eu cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol ar hyn o bryd, ac rydym yn bwrw ymlaen â rhaglen moderneiddio grantiau i gefnogi datganoli penderfyniadau a chyllid.

Fodd bynnag, mae'r ailddyraniadau hyn yn adlewyrchu'r realiti o gyflwyno rhaglen seilwaith drawsnewidiol, gymhleth o fewn cyllideb gymharol fach a chyfyngedig. At hynny, rydym yn ddiolchgar am y cydweithrediad sydd wedi bod rhyngom ni â'n partneriaid cyflenwi, yn enwedig mewn llywodraeth leol, ac am eu hyblygrwydd a'u cefnogaeth barhaus wrth inni gyflawni ein blaenoriaethau cyffredin.

**Goblygiadau Ariannol** – dim.

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon